

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Laura Ashley, Carno (c 1968-1998)

Cyfwelai: VN040 Margaret Humphreys

Dyddiad: 04: 09: 2014

Cyfwelydd: Kate Sullivan ar ran Archif Menywod Cymru

There is an English summary of the interview following the Welsh text

Cadarnhaodd Margaret ei henw, ei chyfeiriad a'i dyddiad geni, sef 22/02/1938

Ganwyd Margaret ym Metws y Coed, a symudodd hi lawr efo'r gŵr pan gafodd o drosglwyddiad yn ei swydd efo'r Comisiwn Coedwigoedd. Roedd Margaret yn gwneud gwely a brecwast cyn hynny. Roedd ei thad yn ffermio ar *smallholding* ac yn gweithio rhan amser gyda'r comisiwn coedwigoedd. Roedd pump o blant yn y teulu ac roedd ei mam yn wraig tŷ. Aeth hi i'r ysgol ym Metws y Coed ac wedyn yn y Drenowydd.

Colloedd hi ei mam pan oedd hi'n 16 oed. **Ar y pryd, roedd Margaret yn bwriadu mynd ymlaen i wneud arholiadau advanced yn yr ysgol ond ar ôl marwolaeth ei mam, penderfynodd hi adael a dod adre am ddwy flynedd i gadw tŷ i'w thad.** Dim ond ei chwaer ifancach oedd gartref ar y pryd. Pan ddaeth pethau'n well, aeth hi allan i weithio, yn gyntaf yn coginio mewn gwesty ym Metws y Coed ac roedd hi'n y swydd hon am 7 mlynedd, tan iddi hi briodi yn 25 oed yn 1963. Parhaodd i weithio am 2 flynedd arall tan i'w mab gael ei eni ac wedyn roedd hi'n cadw gwely a brecwast "roedd hi'n anodd byw dyddiau hynny." Doedd y gwely a'r brecwast ddim rownd y flwyddyn, o'r Pasg tan ddiwedd yr haf.

Mae wedi bod yn Carno am 42 o flynyddoedd. Cafodd hi swydd o fewn pythefnos yn Laura Ashley ond roedd hi wedi gwneud ymholiadau cyn rhoi'r *deposit* lawr ar dŷ. Roedd y gŵr yn dod o Garno felly roedd o'n nabod Meirion Rowlands, brawd Gwlithyn (VN013) ac roedd yn *manager director* i'r cwmni, a chawson nhw air efo fo, yn deud bod nhw'n symud ac yn tybio a oedd gwaith iddi yn y ffatri. "**O, ie, oedd na waith, unrhyw amser, i ni adael o wybod pan oedden ni'n symud. A dw i'n deud, 'wel dw i ddim eisiau diwrnod cyfan o achos y plant.'** *'Part time, fine.'*" Doedd Margaret ddim yn nabod pobl yn Carno ond roedd ei gŵr wedi bod yn gofyn am dai a rhaid bod rhywun wedi awgrymu ei bod hi'n siarad efo Meirion.

Doedd hi ddim wedi gwneud gwaith gwnio o'r blaen, ond dyna'r un o'r ddwy swydd y byddai hi wedi hoffi eu wneud ar ôl gadael yr ysgol - coginio neu wnio. **Doedd dim rhaid iddi gael cyfweliad "Meirion addawodd base na waith i mi pan oedden ni'n symud. Ac es i lawr yna, un pnawn, nes i ddim ringio, ac mi welais i o, a dyna fo'n dued 'wel, cychwyn yfory', y diwrnod**

wedyn.”

Roedd plant ganddi hi - roedd ei mab yn cychwyn yn yr ysgol uwchradd yn y Drenewydd a'r ferch yn yr ysgol yn Carno. Cafodd hi oriau o naw tan dri. Swydd ar yr *overlocker* oedd ei gwaith cyntaf yn Laura Ashley, er bod ganddi ddim syniad sut i ddefnyddio'r peiriant hwnnw. Wnaethon nhw roi hyfforddiant iddi “**wel, sŵn i'n deud am chwe wythnos, ond mewn chwe wythnos roeddech chi'n gwybod dipyn.**”

Dyweddodd Margaret fod yn ddiawledig mynd i mewn i ffatri. “**Oedd o ddim yn ddiawledig, ond do, fues i dipyn, cofiwrh, yn dod i arfer. Oedd na gymaint yn y ffactri i nabod pawb. Un person on i, ynde, a pawb arall yn nabod un yn syth, fel 'tai, 'oh, new girl working today, she's from Carno,' ond roedd rhaid i mi nabod pawb ond oedd?, mi gymerodd amser, cofiwrh. Do, dipyn. Ac i ddeud y gwir, o bob tŷ, rhywun yn gweithio yn Ashleys, ylwch, gŵr a gwraig a phlant os oedden nhw wedi tyfu i fyny.**”

10.45 Odden nhw'n siarad yn ystod y dydd, ond dim cymaint. Doedd y cyflog ddim yn dda, ond dydy hi ddim yn cofio ei chyflog cyntaf. Eistedd mewn rhesi yr oedd y merched. Doedd y gwaith ddim yn undonog, achos roedd lliwiau gwahanol i'w gwneud, felly roedd na dipyn o newid. “**Deudwch, bod chi ar goch am oriau, roeddech chi'n meddwl 'O, nefoedd faint o chwaneg sy gen i o'r pethau cochion ma' ac ydych chi'n cael eich newid wedyn i liw gwahanol.**” Roedd Margaret yn gweithio ar flowsys, ffrogiau, sgertiau, gobennydd nos. Roedd gwahanol steiliau. Doedd hi ddim yn hoffi dillad Laura Ashley am ei chorff hi, roedd hi'n meddwl roedden nhw i bobl ifanc. Er hynny, roedd hi wedi prynu 'seconds' a hefyd defnydd i wneud ei phethau ei hun gartref. Roedd ganddi beiriant gartref, dim ar y dechrau, ond ar ôl i ddillad fynd tramor i gael eu gwneud, roedd tua dwsin ohonynt yn dal ar y peiriannau a daethon nhw â'r *soft furnishings* i mewn, yn y Drenewydd.

Roedd y ffatri yn dipyn o faint pan ddechreuodd hi, tua chant ar y peiriannau gwnïo. **Roedd y pwysau i wneud y gwaith yn gyflym, o dan y system piecework' yn ddiawledig, meddai.** “**Mae 'na ddwy ffordd o feddwl am piecework, ond dim un ffordd ddim yn gweithio.** On i yn feedio tair *machinist, flat machinists*, on i ar yr overlocio ac roedd y dillad yma'n mynd yn ôl ac ymlaen. Mae'n anodd explainio. On i'n gwneud ychydig yn overlocio ac oedden nhw'n gorfod mynd yn ôl i'r *flat machine* i wneud eu tamaid nhw. Mae'n andros o anodd explainio, gwahanol *stage* o ffrog, deudwch.” Tacluso'r gwniadau mae *overlocker* yn gwneud, i atal nhw rhag dod i ffwrdd. Weithiau roedd hi'n gwneud pethau eraill tra'i bod hi'n aros i'r dillad gyrraedd, ac weithiau byddai dau fwndel yn dod ar yr un pryd, yn dibynnu ar y steil. Efo ffrogiau efo *pin tucks*, byddai'r *flat machine* yn gwneud yr holl *pin tucks* yn gyntaf ac wedyn byddai'r *overlocker* yn tacluso'r *seams*. Bydden nhw'n gwneud cannoedd o ffrogiau yn ystod y dydd ond doedd y ffatri ddim yn swnllyd iawn, er efallai ei bod hi wedi dod i arfer efo'r sŵn. Roedd y radio ymlaen, ac roedd pobl yn canu, ond yn gweithio hefyd.

18.35 Er mwyn dod i nabod pobl yn well ac yn gynt, roedd Margaret yn mynd i gyfarfodydd Merched y Wawr. Roedd byssys yn dod o bob man yn dod â gweithwyr i mewn. Doedd hi ddim yn teimlo fel person oedd dim yn perthyn gan fod hii wedi dod o'r gogledd. Roedd hi'n mynd allan am ddiod efo nhw a dod i'w nabod yn well.

Doedd y ffatri ddim yn waith caled, ond rhaid bod yn organized i drefnu'r oriau gwaith o gwmpas cadw tŷ. Roedd y gŵr y cael brechdanau i ginio yn ystod y dydd ond eisiau pryd o fwyd pan fyddai'n cyrraedd adre yn y nos. Roedd y plant yn cael cinio'r un fath. Roedd y bachgen hŷn yn mynd ar y bws i'r Drenewydd, ac roedd hi'n mynd â'r ferch lawr i'r ysgol yn Carno i ddechrau ac wedyn roedd hi'n mynd ei hun. Roedd hi'n gorffen am dri a'i merch yn dod adre am 3.30. Doedd Margaret ddim yn flinedig ar ôl diwrnod o waith, achos roedd hi'n ifanc, meddai. Ar

ddydd Gwener, roedd y ffatri yn gorffen am hanner dydd. Roedd hi'n dod adre, cael paned, ac wedyn glanhau'r ty i gyd, ac yna siopa dydd Sadwrn yn y Drenewydd. Doedd dim bywyd cymdeithasol, dim ond hi a'r gŵr a'r plant.

Roedd pobl eraill yn gwneud rhan-amser, roedd y dewis yno. Roedd Laura Ashley “Oedd hi'n andros o feddylgar i rieni fod adre i ofalu am y plant. Roedd hi (eisiau) i famau gweithio er mwyn iddyn nhw gael bywyd gwell, ‘sŵn i feddwl, ac eto dyna be oedd y *part time*, roedd hi eisiau mamau adre hefyd.”

Roedd y ffatri yn iawn, yn gynnes, ac yn gyfforddus “yr unig beth oedd o'ch blaen chi trwy'r dydd oedd y peiriant.” Roedden nhw'n cael brêc yn y bore a thost, cinio ond roedd hi'n mynd â brechdanau, a brêc yn y prynhawn. Doedd hi ddim yn bwytta yn y cantîn achos roedd hi'n cael cinio gyda'r nos. Roedd hi'n cymysgu efo merched eraill y ffatri. **Saesneg oedd iaith y ffatri oni bai bod dwy neu dair ohonynt a oedd yn Gymry Cymraeg yn sgwrsio gyda'i gilydd, ond mewn grŵp, Saesneg oedd yr iaith.** “Wel, oedd yr Ashleys yn Saesneg i gychwyn, ond oedden, a **Saesneg oedden nhw'n siarad yn y ffatri.**” Hyd yn oed heddiw, mae Margaret yn teimlo bod o'n haws esbonio rhywbeth yn Saesneg nag ydy yn y Gymraeg neu yn ysgrifennu Saesneg. Saesneg roedd ei gŵr yn siarad hefyd a'r plant wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol. Doedd hi ddim yn disgwyl Cymraeg, chwaith, yn Carno, achos mae'n dref Seisnig, meddai.

Doedd hi ddim ar yr *overlockers* ar ôl i'r dillad stopio yn y ffatri, felly pan oedden nhw'n gwneud *soft furnishings*, roedd hi ar beiriant yn gwneud dillad gwely a llenni. Roedd cymaint o archebion roedd yn rhaid iddyn nhw symud i ffatri newydd yn y Drenewydd, ffatri fwy. Caeodd y ffatri yn Carno. Ei gwaith hi oedd gwnio llenni. Mae ffatri yn gwneud llenni heddiw yn y Drenewydd o hyd.

30.00 Ar ôl chwe mis yn gwnio llenni, clywodd Margaret eu bod nhw'n apelio am oruchwylwyr a phenderfynodd hi drio am y swydd. Cafodd hi'r swydd ac roedd hi'n edrych ar ôl rhyw ugain o ferched a oedd yn gwnio. “A gorfod i chi wneud yn siŵr bod chi'n medru dangos i'r genod.” Doedd hyn ddim yn swydd hawdd, gan fod pob person yn wahanol a, deudwch fod gan rywun broblem, roedd yn rhaid i Margaret ddangos iddi beth oedd hi wedi'i wneud yn gam mewn ffordd andros o neis, achos roedd y ferch honno'n gorfod ei ail wneud o, a doedd rhai ddim yn hoffi gorfod ail wneud pethau. “Peidio bod yn rhy bossy. Dach chi efo genod yma drwy'r dydd, dach chi eisio i nhw wneud cyflog da, dach chi eisio gwaith taclus, a 'sa dach chi, wel, yn trîto'r genod, dydyn nhw ddim yn mynd i wneud y gwaith i chi, nag ydyn. Chi yn dal i deimlo 'dw i'n part o producio rhywbeth taclus.” Os oes rhywun ddim wedi gwneud y swydd yn dda, efallai y byddai'n rhaid i Margaret awgrymu ei bod hi'n cael rhyw hyfforddiant ychwanegol. Doedd o ddim yn swydd anodd, ac efallai roeddech chi'n teimlo bod chi yno trwy'r dydd a dim yn gwneud dim byd, ond roedd eich cyflog yn dod. Roedd y *piecework* wedi mynd, a'r straen efo fo. Roedd hi'n mwynhau fod yn oruwchhwylwraig ond roedd yn rhaid gwybod llawer. Clywodd hi ar ôl ymddeol 'you were the best we ever had.'

Mae'n deud bod y ffatri wedi newid cymaint a bod pobl yno a oedd yn cael swydd a ddim yn gwybod sut i'w gwneud hi. Roedd hi llawn amser fel oruchwylwraig. Roedd hi ar hyfforddiant am dri mis i gychwyn. Roedd hi'n cael llai o gyflog, meddai, nag oedd hi'n cael achos roedd hi'n ennill mwy ar *piecework*. Ond doedd dim pwysau arni, er bod y pwysau o edrych ar ôl y genod. Aeth y cyflog i fyny ar ôl dwy flynedd ond doedd hi ddim eisiau dweud faint roedd hi'n ei ennill fel goruwchhwylwraig.

Fel bron pob peiriannydd eraill, mae Margaret wedi cael nodwydd trwy'i bys. Mae pawb yn deud bod chi ddim yn beiriannydd tan i hynny ddigwydd. Roedd rhaid reportio fo ac ysgrifennu fo yn y llyfr damweiniau. **Pan oedd hyn wedi digwydd iddi, wnaethon nhw adael y nodwydd yn ei**

hewin a mynd a hi at y meddyg i'w dynnu allan. Mae'r peth yn digwydd mor sydyn dydy o ddim yn brifo ar y pryd "Ges i un trwy'n ewin, a wnaethon nhw dynnu'r nodwydd a gadael y nodwydd yn ym mys i, ac at y meddyg, ynde." "Mae'n swnio'n boenus ofnadwy." "Wel, oedd o wedi digwydd mor handi, doedd o ddim yn brifo am, wel deudwch chi, am ryw chwarter awr. A throbbio wedyn, ynde, o, ie. *But you can't sew until you've had a needle in your hand.*" Bydden nhw'n cael *tetanus jab* gan y meddyg pan oedd hyn y digwydd.

O ran iechyd a diogelwch, dydy Margaret ddim yn cofio dim byd mawr, dim yn cofio damweiniau mawr. Doedd dim *union* "no, no, no, no no" Doedd hi ddim yn aelod o undeb. Roedd pobl yn mynd at y rheolwyr trwy'r goruchwylwyr. Roedd 'na drafod am gyflog trwy'r amser er bod y cyflog yn mynd i fyny bob blwyddyn, dim gan lawer.

Roedd ei bywyd hi yn mynd yn well, gan fod dau gyflog i ddod i mewn i'r tŷ. Roedden nhw'n mynd ar wyliau i lan y môr pan oedd y ffatri yn cau am bythefnos yn yr haf. Mae'n cofio grŵp o weithwyr o Garno yn mynd i Minehead am bythefnos, gan gynnwys hi a'i theulu. Roedd parti Nadolig, dim byd i wneud efo'r ffatri, roedd y gweithwyr yn mynd allan i ryw hotel. Dydy hi ddim yn cofio os oedd y cwmni yn trefnu hyn, gan fod grwpiau yn mynd efo'i gilydd - y genod un noson, a'r gyrwyr noson arall ayyb. Roedden nhw'n cael '*supervisors' night out*' gan fod tipyn o *supervisors*. Roedd 'na ddau ddwsin o fyrrdau a dwy o genod ar bob bwrdd, yn torri tua chant par o lenni. Yn y Drenowydd yr oedd hyn.

45.00 Roedd Margaret yn y ffatri am 25 o flynyddoedd. Mae hi wedi ymddeol ers dros 20 o flynyddoedd. Cafodd hi barti ffarwelio - dau barti; un yn Carno efo'i chydweithwyr ac un arall efo'r teulu a ffrindiau tu allan i'r ffatri. Gwnaeth y cwmni roi cloc haul (sundail) iddi fel anrheg gadael sydd nawr yn yr ardd. Wrth edrych yn ôl, mae'n cofio'r profiad fel un hapus, amser lle gwnaeth ffrindiau da. Doedd hi ddim yn barod i ymddeol yn 60 oed ond cafodd hi *shingles* ac roedd mewn cymaint o boen. Mae ganddi beiriant adre a *overlocker*, yr oedd wedi'u prynu o'r ffatri pan oeddent yn newid i beiriannau eraill, ac mae wedi gwneud llawer o bethau fel llenni i hotels a chanolfannau lleol. Wedi cael ei thalu am hyn mae hi, nes at flwyddyn yn ôl.

Wnaeth hi ddim setlo ar ôl ymddeol a gwnaeth y bos ei ffonio hi, ar ôl i'r ffatri symud yn ôl i Garno, a gofyn iddi wneud dau ddiwrnod yr wythnos. "Wel, on i'n more *excited*, 'sa chi'n deud mod i wedi cael y loteri." Roedd yn dipyn o job mynd yn ôl ar ôl blwyddyn, yn enwedig gan nad oedd hi'n dychwelyd fel goruwchwylwraig. Ond dywedodd hi wrthynt fod hi ddim eisiau mynd yn ôl ar y peiriant felly cafodd hi swydd gwnio'r llenni â llaw. Ond, meddai'r boss, bod y swydd wedi newid, a bod o'n llawn amser. Dywedodd bod hi'n dal yn gwnio gartref ac roedden nhw'n hapus iddi wneud hynny, felly aeth hi'n ôl llawn amser, pum diwrnod yr wythnos. Roedd hi'n gwneud swyddi gwahanol, fel oedd yn galw, fel arholi'r (*inspect???*) bleinds neu weithio mewn gwasanaeth cwsmeriaid. Roedd hi wrth ei bodd yn gwneud hynny ac yn dda am weld lle roedd y problemau.

Roedd hi yno am ddwy flynedd yr ail dro ac roedd hi'n meddwel bod yn rhaid iddi adael yn y diwedd achos roedd y cyflog yn achosi trafferth efo pensiwn y wlad - dydy hi ddim yn cofio'n iawn.

Hyd: 56 munud

English summary

Laura Ashley, Carno (c 1968-1998)

Interviewee: **VN040 Margaret Humphreys**

Date: **04: 09: 2014**

Interviewer: **Kate Sullivan on behalf of Women's Archive Wales**

Margaret was born on 22nd February, 1938. She was born in Betws y Coed, and moved to Carno with her husband when he was transferred there by the Forestry Commission. Before moving, Margaret had run a B&B. Her father was a smallholder and worked part-time for the Forestry Commission. Her mother was a housewife with 5 children. Margaret went to school in Betws y Coed and Newtown.

When she was 16 she lost her mother. Instead of taking advanced examinations, Margaret left school and stayed at home for 2 years to keep house for her father and younger sister. Then she worked as a cook for 7 years in a hotel in Betws y Coed before marrying at age 25 in 1963. She continued working for a further 2 years until the birth of her son, then kept a B&B which was open between Easter and the end of summer.

She's been in Carno for 42 years, securing a part-time job in Laura Ashley within the first 2 weeks. Her husband, originally from Carno, knew Meirion Rowlands (brother of Gwlithyn VN013), a manager director of the company.

Margaret had no experience of sewing work, but she didn't need to interview. Meirion had promised her a job and when she went to see him, he asked her to start the next day.

Because Margaret had children (her son had started at Newtown secondary school and her daughter, at Carno school) she was asked to work from 9 until 3. She worked on the overlocker at first even though she had no idea how to use the machine. She was given 6 weeks' training and learnt a lot.

It took Margaret some time to get used to working in a factory. It took her a long time to get to know so many new colleagues. Almost everyone was from Carno and knew each other, many were from the same family, 'husband, wife and children, if they were grown up.'

10.45 Margaret doesn't recall her exact wages except to say that they weren't very good. The workers sat in rows and the work wasn't monotonous because the colours (of the material) changed before it became too boring. Margaret worked on blouses, dresses, skirts and nightdresses. Personally, she didn't like wearing Laura Ashley clothes as she considered them more suitable for younger people. However, she bought seconds and material to make her own things at home, where she had her own machine, once the clothes making part of the operation was moved abroad.

When Margaret started there were approximately 100 workers on sewing machines doing piecework and there was pressure to work terribly quickly. Items of clothing were passed from one to another and back and forth as the different jobs were completed in turn. This meant of course that the workers all depended on one another to complete their garments. Sometimes Margaret had

to find other tasks to complete while she waited for somebody else to pass garments on to her. On other occasions, 2 bundles of clothing would arrive at her station together. She worked on an over-locker machine which was different from a flat sewing machine. The over-locker cut as it sewed and left tidy seams. Hundreds of dresses were made each day but Margaret didn't find the factory particularly noisy – not unless she'd become used to the noise. The radio was on and people would sing as they worked.

18.35 Buses brought workers from far and wide to the factory. Margaret didn't feel she belonged because she'd moved from North Wales, so she socialised by going to Merched y Wawr meetings. She also got to know her fellow workers a little better by going out for a drink with them.

Work at the factory wasn't too hard but one needed to be very organized to fit working hours around housekeeping. Margaret's husband had sandwiches for lunch but wanted a cooked meal when he arrived home at night. Her older boy caught the bus to Newtown and Margaret took her daughter to school in Carno until she was able to go on her own. Margaret finished work at 3 and her daughter came home at 3.30. When she was young, Margaret didn't feel tired after a day at work. On Fridays the factory closed at midday; she came home, had a cuppa and then cleaned the whole house. She did the shopping on Saturday in Newtown. She had no social life outside her family.

Laura Ashley offered part-time hours to allow parents to be home to care for their children. She wanted mothers to be able to work to improve their lives but also to be mothers at home.

The factory was warm and comfortable. Workers had a morning break with toast, lunch (although Margaret brought her own sandwiches) and a break in the afternoon. She didn't eat in the canteen because she cooked an evening meal at home.

Margaret mixed with the other factory girls. They spoke English to each other unless 2 or 3 Welsh speakers were together. Margaret notes that the Ashleys were English and therefore it followed that English was the language of the factory. Even today, Margaret finds it easier to explain or write things in English. Her husband spoke English and her children had learnt Welsh at school. Margaret didn't expect to find much Welsh in Carno as it was quite an English town.

When the factory switched from clothing to soft furnishings, Margaret no longer worked on an over-locker. She worked, instead, on a machine making bed clothes and curtains. Due to the demand the company moved to larger premises in Newtown and closed the Carno factory. Margaret made curtains. There's still a curtain factory in Newtown today.

30.00 After 6 months making curtains, Margaret got a job as a supervisor. She was responsible for 20 girls. It wasn't an easy job as she had to solve problems by correcting errors in a diplomatic way. She felt she couldn't be too bossy as she had to work with the girls all day. She wanted to help them so that they could earn a decent wage and motivate them to work hard for the company and produce tidy work. Sometimes Margaret recommended additional training for those who needed help. It wasn't a difficult job and the stress of piecework was behind her. She enjoyed the work even though she felt she needed to know a lot about all aspects of the work. On retirement Margaret was told "**You were the best we ever had.**"

Margaret experienced many changes at the factory – workers were employed with no experience. She was a full time supervisor, for which she was given 3 months' training. She could earn more money doing piecework but at least there was less pressure apart from the responsibility of looking after her girls. The wages increased after 2 years though Margaret is reluctant to divulge exactly how much she earned as a supervisor.

People say that you're not a proper machinist until you've had a needle go through your finger.

When it happened to Margaret, they left the needle through the nail for the doctor to remove. Margaret recalls how it happened so quickly that she felt no pain at the time.

Margaret doesn't remember much in the way of health and safety at the factory. Nor can she remember any serious accidents. There was no union – workers would approach management through their supervisors. There were always discussions about wages, even though they went up each year – though not by much.

Margaret's life was better, with 2 wages coming home. Her family went on holiday to the seaside when the factory closed down for a fortnight in the summer and she recalls being part of a larger group from Carno who went to Minehead. The workers also organised their own Christmas party at a local hotel and there was a '*supervisors' night out*' as there were quite a few supervisors. (In Newtown, there were 2 dozen tables with 2 girls per table cutting approximately 100 pairs of curtains.)

45.00 Margaret worked at the factory for 25 years and has been retired for more than 20 years. She was given a farewell party in Carno with her co-workers and another party for family and friends outside the factory. She was given a sundial by the company which is now in Margaret's garden. Looking back, she remembers her experience as a happy time when she made good friends. She wasn't ready to retire at 60 but she had shingles and was in tremendous pain. She has a sewing machine at home and an over-locker which she bought from the company when they updated their machines. She's used them to make things like curtains for hotels and local centres. She was paid for this sort of work up until a year ago.

After her retirement, Margaret couldn't settle, and after the factory returned to Carno her old boss offered her 2 days' work (a week). She was very excited and felt as though she'd won the lottery. It was strange to return after a years' absence. Her new job was hand sewing curtains. It changed into a full-time job, 5 days a week. She did numerous jobs as required, like inspecting blinds or providing customer services which she enjoyed as she was adept at dealing with problems.

Margaret stayed for 2 years, but eventually left because her wages caused problems with her state pension.

Duration: 56 minutes